NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Alectinib fel triniaeth gynorthwyol ar gyfer canser yr ysgyfaint nad yw'r celloedd yn fach ALK-positif

13 Tachwedd 2024

Mae alectinib (Alecensa) ar gael gan y GIG. Mae'n driniaeth gynorthwyol bosibl ar gyfer canser yr ysgyfaint nad yw'r celloedd yn fach ALK-positif cam 1 B (tiwmorau sy'n 4cm neu fwy) i 3A ar ôl i oedolion gael llawdriniaeth. Caiff triniaeth gynorthwyol ei chynnig ar ôl llawdriniaeth er mwyn lleihau'r risg y bydd y canser yn dychwelyd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar ganser yr ysgyfaint fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- ALK Positive UK, hello@alkpositive.org.uk
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200
- Lung Cancer Nursing UK (LCNUK), 01675 477 607

- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9478-6